Gwybodaeth i Gleifion

# Myelopathi

## Gwasanaeth Ffisiotherapi

Mae gan lawer o bobl gyfuniad o boen yn y gwddf neu'r cefn, ynghyd â phoen, diffrwythder a gwendid yn y fraich neu'r goes. Gall y symptomau hyn beri gofid i chi ond nid oes angen sylw meddygol brys arnynt o reidrwydd. Gall cyflwr asgwrn cefn prin ond difrifol, Myelopathy, arwain at niwed parhaol neu anabledd a bydd angen i chi gael eich gweld gan Dîm Argyfwng Arbenigol yr Asgwrn Cefn. Mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r symptomau hyn, er mwyn i chi allu ceisio cymorth meddygol yn gyflym os byddant yn digwydd:

- Colli gafael a medrusrwydd – Gollwng pethau, neu eich dwylo’n teimlo’n lletchwith
- Anhawster cerdded – Teimlo eich bod yn colli eich balans, neu’n ansefydlog ar eich traed
- Colli pŵer – Trymder neu wendid yn un, neu’ch dwy fraich/llaw, neu goesau/traed
- Colli Teimlad – Diffyg teimlad neu binnau bach yn un, neu’ch dwy fraich/llaw,
  neu goesau/traed
- Newidiadau i swyddogaeth y bledren a'r coluddyn, megis angen mynd ar frys, angen mynd yn amlach, anhawster pasio wrin, gollyngiadau ac anymataliaeth
- Newidiadau i'r teimlad o amgylch y pen-ôl, neu'r organau cenhedlu
- Problemau rhywiol, megis colli teimlad yn y wain, analluu i gael codiad neu orgasm

GALLAI UNRHYW GYFUNIAD O'R RHYBUDDION UCHOD FOD YN SYMPTOMAU O SYNDROM MYELOPATHY.

EWCH I’R ADRAN DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYS YN SYTH I GAEL CYMORTH.

**Ar gyfer trigolion Gwent, mae’r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn: Ysbyty Athrofaol y Faenor, Heol Caerllion, Llanfrechfa, Cwmbrân.**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**



ABUHB/PIU1780/1 – Hydref 2025

Dyddiad dod i ben: Medi 2027